**Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol - Blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau Canser**

**Dydd Mercher 5 Hydref 2016**

**Ystafelloedd Cynadledda C a D, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Agenda**

| | |
|---|---|
| **Croeso a chyflwyniadau**<br>• Ethol Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth | Julie Morgan AC |
| **Llywodraeth Cymru**<br>• Blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau canser<br>• Y wybodaeth ddiweddaraf am adnewyddu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru | Anthony Davies - Uwch Ymgynghorydd Polisi ar gyfer Canser a Chyflyrau Mawr |
| **Rhwydwaith Canser Cymru**<br>• Trosolwg o rôl a strwythur newydd Rhwydwaith Canser Cymru<br>• Rôl wrth ddatblygu’r gwaith o adnewyddu’r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser, a goruchwylio gweithrediad y cynllun | Dr Tom Crosby - Cyfarwyddwr Meddygol, Rhwydwaith Canser Cymru<br>Damian Heron - Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Canser Cymru |
| **Cynghrair Canser Cymru**<br>• Rôl a phwrpas Cynghrair Canser Cymru<br>• Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser | Susan Morris - Pennaeth Gwasanaethau, Macmillan Cymru a Chadeirydd Cynghrair Canser Cymru |
| Trafodaeth / Hawl i holi: | Pawb |

Yn bresennol:

Julie Morgan AC

Mike Hedges AC

David Rees AC

Dr. Dai Lloyd AC

Angharad Thomas - Swyddfa David Rees AC

Dave Bezzina - Swyddfa Dawn Bowden AC

Helen West - Swyddfa Julie Morgan AC

Nancy Cavill - Swyddfa Julie Morgan AC

Anneka Hughes Cancer Research UK

Dr Lee Campbell Ymchwil Canser Cymru

Linda McCarthy, Breast Cancer Care Cymru

Paul Harding, Gofal Canser Marie Curie

Mike Walsh, Hosbis George Thomas

Simon Morgan Jones, Clic Sargent

Alicia Roberts, Ovarian Cancer Action

Jonny Savage, Prostate Cancer UK

Susan Morris, Macmillan

Amelia Chong, Breast Cancer Now

Pip Ford, Y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

Peter Thomas, Cynrychiolydd y claf

Jodie Bond, Canolfan Ymchwil Canser Cymru

Callum Hughes, Cydffederasiwn GIG Cymru

Barbara Burbridge

Barbara Lees

Sian Whelan Nyrs ymchwil Cancer Research UK

Andrea Hague – Cyfarwyddwr, Canolfan Ganser Felindre

Sally Jenkins

Victoria Hugtenburg

Yr Athro Malcolm Mason - Athro ym maes Oncoleg Clinigol

Yr Athro Robert Mansel - Athro Llawfeddygol

Leann Farrell

Alison Parry-Jones - Rheolwr Banc Canser Cymru

Sue Hadlow – Bosom Pals

Anthony Davies - Llywodraeth Cymru

Tom Crosby - Rhwydwaith Canser Cymru

Damian Heron - Rhwydwaith Canser Cymru

Hywel Morgan - Rhwydwaith Canser Cymru

Jane Hanson - Rhwydwaith Canser Cymru

Etholwyd Julie Morgan yn gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol yn dilyn enwebiad gan Mike Hedges AC. Gofynnwyd i Cancer Research UK barhau i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp. Croesawodd Julie bawb i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad byr ar waith y grŵp.

**Cyflwyniad gan Anthony Davies**

- Eglurodd Anthony rôl Llywodraeth Cymru o ran paratoi cynlluniau cyflenwi ar gyfer cyflyrau mawr a phenderfyniad yr Ysgrifennydd Iechyd i adnewyddu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser presennol. Cadarnhaodd fod hwn yn un o chwe chynllun cyflawni sydd yn y broses o gael eu hadnewyddu ar hyn o bryd.
- Rhoddwyd y dasg o ysgrifennu'r cynllun i Rwydwaith Canser Cymru ac mae nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu wedi cael eu cynnal i gael adborth gan randdeiliaid. Caiff y cynllun terfynol ei gyhoeddi yng Nghynhadledd Canser Cymru ym mis Tachwedd.

**Cyflwyniad gan Dr Tom Crosby (dogfen PowerPoint ynghlwm)**

- Trafododd Dr Crosby yr hyn a gyflawnwyd o ran gwasanaethau canser yng Nghymru gydag arweinyddiaeth glinigol gref. Amlinellodd rai cyfleoedd ar gyfer y dyfodol a phwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau gwell i gleifion.

**Cyflwyniad gan Damian Heron (dogfen PowerPoint ynghlwm)**

- Trafododd Damian rôl newydd Rhwydwaith Canser Cymru (WCN) yn dilyn uno rhwydweithiau Canser y Gogledd a'r De. Esboniodd fod y cyfarfod hwn yn amserol iawn gan fod Rhwydwaith Canser Cymru yn ffurfio'n swyddogol ar 1 Hydref.
- Trafododd ddiben Rhwydwaith Canser Cymru a'i rôl wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser a nodwyd bod angen gwneud rhagor o waith o ran diagnosis cynnar ar gyfer canser.

**Cyflwyniad gan Susan Morris (dogfen PowerPoint ynghlwm)**

- Rhoddodd Susan eglurhad ar aelodaeth Cynghrair Canser Cymru (WCA) a'i rôl o ran cefnogi a herio Llywodraeth Cymru.
- Roedd y Gynghrair yn cefnogi cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yn 2012 a'i fwriadau, ond nid yw'n credu bod digon wedi cael ei gyflawni. Mae llawer mwy o amrywiad o ran gwasanaethau o hyd nag a ddylai fod.
- Mae'r gwaith o adnewyddu'r Cynllun Cyflawni Canser yn gyfle da ar gyfer symud ymlaen. Mae Cynghrair Canser Cymru yn chwarae rhan weithredol o ran helpu i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau canser yng Nghymru.

**Trafodaeth**

**Atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu**

Gofynnodd David Rees AC ynghylch meddygon teulu a diagnosis cynnar, ac a yw oedi yn fater o ran hyfforddi neu'n fater o ran atgyfeirio. Atebodd Dr Tom Crosby fod Cymru yn agos at waelod y tabl goreuon o ran goroesi canser yn gyffredinol, ac mae angen gwell ymwybyddiaeth o symptomau ymhlith cleifion, yn ogystal ag ymwybyddiaeth well o ofal

sylfaenol. Soniodd am ymweliad astudiaeth ddiweddar â Denmarc a rôl canolfannau diagnostig amlddisgyblaethol yn ogystal â rhaglenni sy'n gweithio gyda meddygon teulu ochr yn ochr â Macmillan. Dywedodd Anthony Davies fod mynediad Meddygon Teulu at wasanaethau diagnostig yn un o'r prif feysydd ffocws ar gyfer Llywodraeth Cymru. Dywedodd ei bod yn anodd gwneud diagnosis o rai mathau o ganser, felly mae hyn yn her, ond byddai'n fater allweddol a fyddai'n cael sylw drwy gydol pedair blynedd nesaf y Cynllun Cyflenwi ar gyfer Canser.

**Gweithwyr allweddol**

Gofynnodd Peter Thomas ynghylch Gweithwyr Allweddol a pha gynnydd a wneir. Dywedodd Tom Crosby bod rhywfaint o gynnydd. Mae gan bob bwrdd iechyd nyrs arweiniol i oruchwylio'r gwaith o ddarparu Gweithwyr Allweddol. Dywedodd Anthony Davies fod Llywodraeth Cymru yn cofnodi a yw cleifion wedi cael Gweithiwr Allweddol, a bellach roedd dull gweithredu mwy trefnus i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. Byddai hyn yn cael ei nodi yn y Cynllun Cyflawni newydd.

**Ymgysylltu â'r diwydiant fferyllol**

Gofynnodd Leann Farrell ai Rhwydwaith Canser Cymru oedd y lle i fynd, fel petai, ar gyfer y diwydiant fferyllol, yng ngoleuni datblygiadau gyda'r Gronfa Triniaethau Newydd a'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR). Dywedodd Damian Heron fod posibilrwydd i hwn wella'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol.

**Rôl technoleg**

Gofynnodd Dr Malcom Mason am rôl technoleg a sut y dylid defnyddio technoleg, o ystyried bod y rhan fwyaf o bobl â mynediad i smartphone / y rhyngrwyd bellach. Dywedodd Dr Tom Crosby fod angen i ni edrych ar sut y darperir gwybodaeth i gleifion a sut y gallwn wella yn hyn o beth.

**Mynediad at driniaethau**

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sut i wella mynediad at driniaethau a lleihau amrywiadau rhwng Cymru a Lloegr. Atebodd Tom Crosby nad cronfa cyffuriau canser Lloegr oedd yr ateb. Roedd angen rhagor o wybodaeth o hyd am y Gronfa Triniaethau Newydd a sut y byddai'n gweithio. Cadarnhaodd Anthony Davies fod hwn yn un o ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru, ac y byddai £80 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros gyfnod y Cynulliad i wella mynediad at driniaethau ar gyfer cleifion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.00am**